Mae'r geiriau sydd wedi'u tanlinellu yn yr eirfa yn ôl trefn y wyddor.

I lawer o bobl, mae hen ddiwydiannau Cymru yn golygu glo, haearn a llechi.

Mae pawb yn gyfarwydd â'r tomenni sbwriel amlwg ac â lluniau o lowyr a chwarelwyr wrth eu gwaith, ond dros y canrifoedd bu llawer o gloddio am fwynau hefyd. Weithiau mae'r hen safleoedd yn hawdd i'w gweld - anodd yw anwybyddu Mynydd Parys ar Ynys Môn neu olion gwaith Cwm Ystwyth - ond yn aml rhaid chwilio am domenni o bridd a cherrig "gwahanol" i ddangos ceg twnelau neu loriau trin y mwyn.

Tramffordd i waith manganîs Cwm Mynach ger Dolgellau

(Haearn yn y pridd sydd fel arfer yn achosi'r lliw cochlyd nodweddiadol.) Gall enwau llefydd ddangos ardaloedd mwyngloddio fel Pen y Gwaith, Pantymwyn neu Nant yr Arian. Adeiladwyd ffyrdd trol a thramffyrdd i'r gweithfeydd, ac mae gwefr arbennig mewn dilyn un o'r rhain at adfail llonydd hen fenter brysur.

Prif fetelau anfferus (heb haearn) Cymru gyda'u sumbol cemegol mewn cromfachau:	**aur** (Au) **copr** (Cu) **plwm** (Pb)	**arian** (Ag) **sinc** (Zn) **manganîs** (Mn)

Wyddoch chi am unryw fath o fwyngloddio yn eich hardal chi?

1 Holwch mewn llyfrgell neu Archifdy'r Sir am ddogfennau a hen luniau.
2 Mae cofnod o waith trigolion pob plwyf yn y Cyfrif ar gyfer 1841, 1851, 1861, 1871, 1881 a 1891 (gyda 1901 allan yn 2002.)

Chwiliwch am fwynwyr yno e.e.

Parish of Llanrhychwyn			*Caernarvonshire*
3, Brynllys Cottages	*David Thomas*	*30 yr*	*Lead miner*

O'r holl fetelau, aur sydd wedi dal y dychymyg fwyaf;
mae rhyw ramant rhyfedd yn perthyn iddo.

"Mieri lle bu mawredd"
Yn y lefel hon y darganfuwyd bonansa aur Clogau yn 1861

Mae Cymru'n enwog am ei haur, yn bennaf o gwmpas Dolgellau - y "Klondyke Cymreig" yn ôl papurau newydd y 19eg. ganrif - ac yn Nolaucothi ger Pumsaint. Gallwn brynu gemwaith o aur y Clogau hyd heddiw, a'r un aur sydd ym modrwyau priodas y teulu brenhinol. Dolaucothi ydy'r unig fan y gallwn fod yn hollol bendant y buodd y Rhufeiniaid yn cloddio am aur, er bod traddodiad iddynt fod wrthi mewn mannau eraill. Eto, mae enwau yn rhoi lle i ni ddyfalu. Olion gwaith plwm sydd yng nghwm Llannerch-yr-aur, ond mae'r enw'n awgrymu y gallai rhywbeth mwy gwerthfawr fod wedi dod oddi yno ar un adeg. Er bod pyrites haearn (aur y ffwl) yn debyg i aur o ran lliw, gellir ei adnabod wrth ei grisialau ciwbig, a byddai'r mwynwyr yn gwybod hynny'n dda.

Gwaith aur y Duncan, Wyoming. A fu Cymry yma?

Efallai fod mwyngloddio'n rhan o natur y Cymro. Roedd Cymry'n flaenllaw fel mwynwyr yn yr America dros ganrif yn ôl, a daeth nifer yn llwyddiannus iawn mewn swyddi eraill yno ar ôl gwneud tipyn o ffortiwn yn dilyn gwythiennau cyfoethog y Mynyddoedd Creigiog. Ymfudodd chwarelwr ifanc tlawd o'r enw William Jones o Rosgadfan ym 1908 a gwnaeth ddigon o arian mewn gwaith aur yn Idaho i brynu fferm sylweddol.
Tyfodd cymunedau Cymreig cryf yng Ngholorado ar ôl darganfod aur yno ym 1859, gydag ysgolion Sul, eisteddfodau a hyd yn oed capel Cymraeg yn Russell Gulch. Ond rhaid cofio mai'r Gorllewin Gwyllt oedd hwn, wedi'r cyfan - cael ei saethu fu hanes Cymro o'r enw Williams, siryf cyntaf Central City, un o nifer o Gymry a fu'n ddigon cyfiawn a dewr i weinyddu cyfraith arw'r cyfnod.

Ar gof a chadw? Gobeithio!

Hen waith plwm y Cyffty ym 1963

Erbyn 1966, adfeilion y Cyffty oedd yr enghraifft orau'n dal i sefyll yn Nyffryn Conwy o dy injan a gêr weindio pen siafft o'r math oedd ar un adeg mor gyffredin. Y flwyddyn honno, heb drafod na rhybudd, dinistriwyd y cyfan gan y perchennog a chollwyd darn amhrisiadwy o hanes diwydiannol Coed Gwydyr.
Er bod y safle erbyn hyn yn daclus a diogel, gyda phaneli gwybodaeth diddorol i ddehongli'r olion, meddyliwch cymaint gwell fyddai gweld y lle fel yr oedd. Yn ffodus, mae mwy o lawer ar ôl yn hen weithfeydd Hafna a Llanrwst, ond yr oedd y Cyffty'n unigryw - tan i fois y deinameit ddod hebio.

Ty injan y Meadow, Minera, Wrecsam

Cymharwch y Cyffty heddiw â hen waith plwm Minera ger Wrecsam. Yno cafodd y safle ei archwilio a'i ddiogelu at y dyfodol fel rhan o safle hanesyddol a pharc gwledig, lle gall y cenedlaethau i ddod werthfawrogi'r hyn a fu.
A oes unrhyw olion diddorol yn eich hardal chi? Ydyn nhw wedi'u rhestru fel safleoedd hanesyddol o bwys ac felly'n ddiogel? Dylent fod - rhag ofn!

Nid ni yn unig sydd â diddordeb mewn tyllau tywyll tanddaearol!

Mae lefelau a siafftiau'n gwneud cartrefi ardderchog i ystlumod o bob math, ac mae rhai o'r mathau prinnaf yn y wlad wedi symud i mewn. Nid cuddfan milwyr o'r Ail Ryfel Byd ydy hwn, ond pen siafft yn Hafna.
Fedr neb gael damwain, ond mae'r ystlumod yn medru mynd a dod fel y mynnant.

RHYBUDD:
GALL MWYNGLODDIAU BERI NIWED DIFRIFOL I'CH IECHYD!

Dim ond ychydig o'r hen fwyngloddiau sydd wedi'u gwneud yn ddiogel a'u haddasu ar gyfer ymwelwyr, ac mae adfeilion llawer yn aros fel yr oeddent pan ddaeth y gwaith i ben, wedi dirywio dros y blynyddoedd. Maent yn llefydd peryglus dros ben, gyda waliau bregus, tyllau annisgwyl a siafftiau dwfn arswydus.
CADWCH DRAW!

< Gwaith Hafna yng Nghoed Gwydyr - safle ddiogel, groesawgar, efo paneli deniadol sydd yn dehongli'r olion ac yn egluro beth oedd yn digwydd yno.

Hen bwll plwm ar gyrion Pumlumon yng Ngheredigion, lle mae'r siafft agored yn disgyn i ddyfnderoedd y ddaear.

Geirfa

adfail	... ruin	gwefr	... thrill
amhrisiadwy	... priceless	gweinyddu	... enforce
annisgwyl	... unexpected	gweithfeydd (ll. gwaith)	... mine, working
Archifdy	... Record Office	gwerthfawrogi	... appreciate
archwilio	... examine	gwythien	... vein
arswydus	... terrifying	lloriau (ll. llawr)	... floors
blaenllaw	... leading	menter	... enterprise
bregus	... unsound	mwyn	... ore
cloddio	... dig, mine	rhestru (b)	... list (v.)
y Cyfrifiad	... the Census	rhybudd	... warning
cymuned	... community	safle	... site
dehongli	... interpret	siryf	... sheriff
dinistrio	... destroy	tanddaearol	... underground
dirywio	... deteriorate	tomen	... tip, spoil heap
dogfen	... document	unigryw	... unique

Gallwch ddysgu mwy am y mwyngloddiau trwy ddarllen rhai o'r llyfrau isod:

The Old Metal Mines of Wales	David Bick
The Old Copper Mines of Snowdonia	David Bick
Mines of the Gwydyr Forest	John Bennet & Robert W. Vernon
The Gold Mines of Merioneth	G. W. Hall
Y Cymry ac Aur Colorado	Eirug Davies
Minera	John Bennet
Helynt Coed y Gell	G. W. Griffith (Nofelhanesyddol)
Capten	R. Lloyd Jones (Nofel Hanesyddol)

GA I FYND AR Y TRIP? MAE O'N SWNIO'N DDA!

Y ffordd orau o fwynhau mwyngloddiau ydy trwy ymweld ag un o'r safleoedd sydd ar agor i'r cyhoedd - medrwch fynd o dan y ddaear mewn rhai. Gallech gynnwys ymweliad fel rhan o daith ysgol, efallai fel rhan o gwrs yn Llangrannog neu Lanllyn.

Mae'r llefydd ar y map yn addas i ymwelwyr o bob oed ac ar agor i grwpiau ysgol.

MYNYDD PARYS
Ffôn: 01407 832277
Safle gwe: http://www.parysmountain.co.uk
Y GOGARTH
Ffôn 01492 870447
Safle gwe: http://www.greatorme.freeserve.co.uk
COED GWYDYR
Ffôn 01492 640578
GWAITH COPR SYGUN
Ffôn 01766 510101
Safle gwe: http://ourworld.compuserve.com/homepages/SnowdoniaMine
PYLLAU PLWM MINERA
Ffôn 01978 753400
LLYWERNOG
Ffôn 01978 890620
Safle gwe: http://www.silverminetours.org.uk
DOLAUCOTHI
Ffôn 01558 825146
Safle gwe: http://www.nationaltrust.org.uk
Cyffredinol
http://www.cymru-dan-y-ddaear.org.uk